



Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Crai S4C

Gorffennaf 2016

1. Rhagarweiniad

Pan fo S4C yn trwyddedu rhaglen oddi wrth Gynhyrchydd ar sail y Telerau Cyffredinol, mae S4C yn prynu trwydded o hawliau ecsgliwsif yn y DU am gyfnod y drwydded. Yn ystod cyfnod y drwydded, ni ddylai Cynhyrchydd werthu unrhyw Glipiau (gan gynnwys Deunydd Crai) o Raglen S4C i unrhyw drydydd parti yn y DU heb ganiatâd S4C o flaen llaw, heblaw fel y'i nodir isod.

Os yw'r Cynhyrchydd am wneud defnydd o Glipiau neu Deunydd Crai mewn amgylchiadau nad ydynt yn cwmpo o fewn y polisi hwn, dylai'r Cynhyrchydd gysylltu efo S4C er mwyn ceisio caniatâd arbennig gan S4C. Mae S4C yn awyddus i gyd-weithio gyda Chynhyrchwyr yn eu defnydd o glipiau a rhaid pwysoli hyn yn erbyn gwarchod buddsoddiad S4C yn Rhaglenni S4C. I'r perwyl hwn, gall S4C roddi neu atal caniatâd ar gyfer defnydd y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn y nodyn hwn yn ei disgresiwn ei hun.

Gosodir isod yr egwyddorion sy'n amlinellu sut y gall Clipiau a Deunydd Crai:

- (i) gael eu defnyddio gan S4C yn unol â'r Telerau Cyffredinol heb ganiatâd pellach y Cynhyrchydd;
- (ii) gael eu defnyddio a'u dosbarthu gan y Cynhyrchydd yn ystod cyfnod trwydded S4C heb yr angen i ofyn am ganiatâd S4C.

At bwrpas y polisi hwn diffinir Clipiau fel a ganlyn (i gynnwys Deunydd Crai):

Clipiau – dyfyniad, detholiad, cyfran neu glip o Raglen neu ddeunydd crai a grëwyd mewn cysylltiad â neu yn ystod cyfnod cynhyrchu'r Rhaglen (*Rushes*) yn cynnwys [outtakes], lluniau llonydd, traciau sain heb luniau a deunydd gweledol (gyda neu heb drac sain)

2. Defnydd gan S4C o Glipiau

Mae'r Cynhyrchydd yn rhoddi i S4C yn ystod cyfnod y Drwydded:

- (i) yr hawl i ddefnyddio Clipiau ac i ganiatáu i drydydd partiön ddefnyddio Clipiau mewn deunydd hyrwyddo ar gyfer Rhaglen S4C, Gwasanaethau S4C ac S4C yn gorfforaethol ar bob plattform a chyfrwng yn fyd-eang yn unol â'r Hawliau Hyrwyddo heb wneud taliad pellach i'r Cynhyrchydd neu unrhyw drydydd parti ag eithrio unrhyw freindaliadau sy'n daladwy i actorion, awduron a cherddorion yn unol â chytundebau gydag Equity, WGGB a'r MU a chliriadau priodol ar gyfer defnydd o gerddoriaeth ac unrhyw daliadau eraill yr hysbysa'r Cynhyrchydd i S4C yn ysgrifenedig;
- (ii) yr hawl i ddarlledu neu wneud y Clipiau ar gael fel rhan o unrhyw raglen deledu neu fel arall heblaw fel y nodir yn y Polisi Clipiau;
- (iii) yr hawl i ymelwa ar ac i ganiatáu defnydd o Glipiau mewn rhaglenni newydd ar gyfer Gwasanaethau S4C yn unol â pharagraff 6 isod ac i ymelwa ar y fath raglenni a'r holl rannau ohonynt ym mhob cyfrwng ar dalu'r Ffi Glipiau perthnasol yn unol â'r Ffioedd Clipiau a osodir yn yr Atodlen, lle'n berthnasol;
- (iv) yr hawl i gynnwys Clipiau o hyd at pum (5) munud ar safleoedd gwe, safleoedd rhyngweithio ac yn unrhyw gyfrwng neu blatfform arall sydd yn gysylltiedig â Gwasanaethau S4C boed eisoes wedi ei ddyfeisio neu a ddyfeisir yn y dyfodol am byth yn ddarostyngedig i daliadau trydydd partiön priodol lle nad yw'r defnydd yn ddefnydd hyrwyddo.



3. Clipiau ar safleoedd gwe – defnydd hyrwyddo

Mae gan y Cynhyrchydd yr hawl i ddefnyddio Clipiau ar wefan(nau)'r Cynhyrchydd neu wefannau trydydd partion at ddibenion:

- (i) hyrwyddo Rhaglen S4C a darllediad(au) S4C o Raglen S4C ar unrhyw gyfnod; a/neu
- (ii) hyrwyddo gwaith y Cynhyrchydd ar wefan corfforaethol y Cynhyrchydd

ar yr amod nad yw cyfanswm y Clipiau dros 10% o hyd gwirioneddol y Rhaglen neu unrhyw bennod neu bum (5) munud fel uchafswm, pa un bynnag sydd lleiaf.

Bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod unrhyw ddefnydd o'r fath yn cynnwys credyd i S4C fel darlledwr y Rhaglen a, lle'n briodol, manylion dyddiad ac amser darlledu'r Rhaglen ar wasanaethau S4C. Bydd y Cynhyrchydd yn cysylltu gydag adran farchnata S4C i sicrhau'r wybodaeth gywir am amserlen ddarlledu'r Rhaglen.

4. Clipiau ar wefan trydydd parti - dim hyrwyddo

Os yw Cynhyrchydd yn dymuno galluogi gwefan trydydd parti (h.y. gwefan sydd o hyd braich i'r Cynhyrchydd ac eithrio cyfrifon Facebook, Twitter ayyb y Cynhyrchydd) sydd ar gael yn y DU i ddefnyddio Clip mewn modd nad yw'n hyrwyddo darllediad S4C o Raglen S4C o fewn Cyfnod y Drwydded, bydd y telerau isod yn berthnasol:

- 4.1 ni all y Cynhyrchydd ganiatáu defnydd o Glip o unrhyw Raglen S4C cyn darllediad cyntaf S4C o Raglen S4C, heblaw lle defnyddir y Clip i hyrwyddo darllediad S4C o Raglen S4C;
- 4.2 ni all hyd y Clip fod yn hwy na'r isod:

Math o Glip	Uchafswm hyd y Clip am bob 30 munud o raglen
Clip unigol nad yw'n berfformiad o gerddoriaeth	3 munud
Perfformiad o gerddoriaeth	30 eiliad

- 4.3 nad yw cyfanswm y Clipiau dros 10% o hyd gwirioneddol y Rhaglen neu unrhyw bennod neu bum (5) munud fel uchafswm, pa un bynnag sydd lleiaf;
- 4.4 bydd y Cynhyrchydd yn codi ffi glipliau ar berchennog neu reolwr y wefan trydydd parti;
- 4.5 bydd y Cynhyrchydd yn talu 25% o'r ffi glipliau ac unrhyw incwm net arall y derbynnir ganddo i S4C;
- 4.6 bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu cyswllt Materion Busnes S4C y rhaglen o flaen llaw o unrhyw drefniadau i ymelwa ar Glipliau ar wefan unrhyw drydydd parti, a bydd gan S4C yr hawl i wrthod caniatâd yn ei disgresiwn ei hun;
- 4.7 ni fydd y Cynhyrchydd yn defnyddio'r Clipiau mewn modd a fwriadwyd i fod neu sydd yn ddifriol neu'n creu parodi o Raglen S4C;
- 4.8 y Cynhyrchydd fydd yn gyfrifol am roi'r cyfrifoldeb ar ddefnyddiwr y Clip i dalu unrhyw weddill-daliadau trydydd partion;

- 4.9 bydd y Cynhyrchydd yn ei gwneud yn amod o'r drwydded i ddefnyddio'r Clip fod y trydydd parti yn rhoi credyd i S4C ar y wefan trydydd parti; a
- 4.10 bydd y Cynhyrchydd yn cadw cofnod o bob defnydd o Glipiau gan drydydd partion ac adrodd yn flynyddol i S4C ar y gwerthiannau a'r canran o'r incwm sy'n ddyledus i S4C. Gweler y [templed](#) ar gyfer yr adroddiad yn Atodlen B.

5. Clipiau mewn rhaglen newydd S4C

Os yw Cynhyrchydd yn defnyddio Clip o Raglen sydd yn berchen i'r cynhyrchydd hwnnw mewn rhaglen newydd i S4C unrhyw bryd boed o fewn Cyfnod y Drwydded neu wedi terfyn Cyfnod y Drwydded, ni fydd y Cynhyrchydd yn cynnwys ffi glipiau yng nghyllideb y rhaglen newydd nac yn codi unrhyw gost ar S4C am gynnwys y fath glipiau, heblaw am gostau golygu gwirioneddol ac angenrheidiol ar gyfer y rhaglen newydd.

6. Clipiau trydydd parti mewn rhaglen newydd S4C

Os yw Cynhyrchydd A wedi creu rhaglen ar gyfer S4C yn y gorffennol a bod Cynhyrchydd B yn dymuno defnyddio Clip o'r rhaglen honno mewn rhaglen newydd, bydd y telerau isod yn berthnasol:

- 6.1 bydd disgwyl i Gynhyrchydd B gysylltu â Chynhyrchydd A i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r Clip o flaen llaw ac mewn amser da gan gymryd i ystyriaeth anghenion amserlen gynhyrchu'r rhaglen newydd. Bydd S4C yn disgwyl i Gynhyrchydd A ddarparu'r fath ganiatâd yn amserol ac o leiaf o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith i dderbyn y fath gais (neu wneud ei ymdrechion gorau i ddarparu'r Clip o fewn 24 awr i dderbyn cais lle mae'r cais am Glip yn gysylltiedig â rhaglen newyddion neu faterion cyfoes sydd â chyfnod cynhyrchu tyn), heblaw bod gan Gynhyrchydd A reswm dilys dros wrthod caniatâd am ddefnydd o'r Clip, os yw Cynhyrchydd A yn dymuno gwrthod y fath ganiatâd bydd angen egluro'r rhesymeg wrth adran Gyfreithiol S4C yn dilyn cais am y fath eglurhad. Os nad yw Cynhyrchydd A yn darparu'r fath ganiatâd neu wrthodiad o ganiatâd yn ysgrifenedig o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith i dderbyn cais ysgrifenedig, yna bernir bod y fath ganiatâd wedi ei roi;
- 6.2 gall Cynhyrchydd B ofyn i naill ai S4C neu Gynhyrchydd A am gopi o'r Clip. Lle gwneir y cais i S4C, bydd S4C yn darparu copi o'r Clip i Gynhyrchydd A ar yr amod bod defnydd y Clip yn amodol ar i Gynhyrchydd B sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan Gynhyrchydd A neu dystiolaeth bod cais am ganiatâd wedi ei wneud i Gynhyrchydd A gyda nodyn o gadarnhad nad yw Cynhyrchydd A wedi ymateb o fewn y cyfnod o bum (5) Niwrnod Gwaith. Bydd angen cyflwyno'r fath dystiolaeth i S4C fel rhan o waith papur y Rhaglen. Os yw Cynhyrchydd A yn gwrthod caniatâd i'r defnydd o'r Clip, ni ddylai Cynhyrchydd B ddefnyddio'r Clip a dylid trafod ymhellach gyda S4C;
- 6.3 ag eithrio fel y nodir yn 6.4 isod, bydd Cynhyrchydd B yn sicrhau taliad i Gynhyrchydd A yn unol ag Atodlen A o fewn deg diwrnod ar hugain (30) i ddarllediad y rhaglen newydd. Os na wneir y fath daliad, bydd gan Gynhyrchydd A yr hawl i hawlio'r Ffi Glipiau priodol yn uniongyrchol oddi wrth Gynhyrchydd B, ni fydd unrhyw atebolrwydd gan S4C am dalu unrhyw Ffi Glipiau i Gynhyrchydd A;

- 6.4 ni fydd gan Gynhyrchydd A yr hawl i Ffi Glipiau pan fo'r defnydd gan Gynhyrchydd B at ddibenion creu rhaglen ar gyfer Gwasanaethau S4C sydd yn raglen addysgiadol, rhaglen ar gyfer dysgwyr Cymraeg sydd yn annog dysgwyr i wylio rhaglenni S4C neu raglen sydd yn adolygu neu'n hyrwyddo rhaglenni S4C; a
- 6.5 Cynhyrchydd B fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw weddill-daliadau trydydd partïon sydd yn rhan o'r Clip.

7. Clipiau mewn rhaglenni darlledwyr eraill

Os yw Cynhyrchydd yn dymuno defnyddio Clip o Raglen sydd yn berchen i'r cynhyrchydd hwnnw mewn rhaglen newydd i ddarlledwr arall yn y DU o fewn Cyfnod y Drwydded, bydd y telerau isod yn berthnasol:

- 7.1 ni all y Cynhyrchydd ganiatáu defnydd o Glip o unrhyw Raglen S4C cyn darllediad cyntaf S4C o Raglen S4C (heblaw lle bo'r defnydd yn hyrwyddo darllediad S4C o Raglen S4C);
- 7.2 ni all hyd y Clip fod yn hwy na'r isod:

Math o Glip	Uchafswm hyd y Clip am bob 30 munud o raglen
Clip unigol nad sy'n berfformiad o gerddoriaeth	3 munud
Perfformiad o gerddoriaeth	30 eiliad

- 7.3 ni all mwy na 25% o hyd unrhyw raglen newydd ar gyfer darlledwr trydydd parti fod wedi ei greu o Glipiau o unrhyw Raglen S4C neu o'r unrhyw gyfres o Raglen S4C;
- 7.4 heblaw y cytunir yn benodol fel arall gan S4C yn ysgrifenedig o flaen llaw, ni ddylid cynnwys mwy nag 1 Clip o unrhyw raglen 30 munud ac ni ddylid cynnwys mwy na 2 Glip o unrhyw raglen 60 munud;
- 7.5 bydd y Cynhyrchydd yn cynnwys ffi glipiau yng nghyllideb y rhaglen newydd a wneir i ddarlledwr trydydd parti;
- 7.6 bydd y Cynhyrchydd yn talu 25% o'r ffi glipiau ac unrhyw incwm net arall sydd yn deillio o ddefnydd o'r Clipiau i S4C;
- 7.7 bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu adran Faterion Busnes S4C o flaen llaw o unrhyw drefniadau i ymelwa ar Glipiau o fewn rhaglen i ddarlledwr trydydd parti;
- 7.8 ni fydd y Cynhyrchydd yn defnyddio'r Clipiau mewn modd a fwriadwyd i fod neu sydd yn ddifriol neu'n creu parodi o Raglen S4C;
- 7.9 y Cynhyrchydd fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw weddill-daliadau trydydd partïon; a
- 7.10 bydd y Cynhyrchydd yn ei gwneud yn amod o'r drwydded i ddefnyddio'r Clip fod y darlledwr arall yn darlledu credyd i S4C ar unrhyw raglen newydd.



Atodlen A

Ffi Glipiau ar gyfer defnydd gan drydydd parti o Glip mewn Rhaglen newydd i S4C

Lle bo' cynhyrchydd rhaglen newydd S4C yn wahanol i gynhyrchydd y rhaglen y ffilmwyd y Clip ar ei gyfer, gall y cynhyrchydd gwreiddiol godi'r Ffioedd Clipiau canlynol:

1. Am glip o raglen mewn rhaglen newydd – ffi o £50 y funud ar gyfer defnydd digyfngiad gan S4C o'r rhaglen newydd ar wasanaethau S4C
2. Am glip o ddeunydd crai/*rushes* (arferol) mewn rhaglen newydd – ffi o £100 y funud ar gyfer defnydd digyfngiad gan S4C o'r rhaglen newydd ar wasanaethau S4C
3. Am glip o ddeunydd crai o werth uwch (*enhanced value*) yn unol â'r diffiniad ym Mholisi Archif TAC (Atodiad 2, paragraff 2.8) – ffi o £250 y funud ar gyfer defnydd digyfngiad gan S4C o'r rhaglen newydd ar wasanaethau S4C

Lle bo' gofyn i S4C neu gynhyrchydd arall ddarparu'r Clip, noder fod costau clirio'r cyfranwyr ac unrhyw gostau ymchwil rhesymol a throsglwyddo yn ychwanegol i'r Ffioedd Clipiau a dylid eu cyllidebu fel rhan o gostau'r rhaglen newydd.

Ffi Glipiau ar gyfer defnydd arall gan y Cynhyrchydd

I'w brisio gan y Cynhyrchydd yn unol â thelerau arferol y farchnad.



Atodlen B

[TEMPLED ADRODDIAD](#) (Cliciwch)